

GWAHODDIAD I GYFLWYNO TENDR AM YMGYRCH FARCHNATA DROS 12 MIS I'R BARTNERIAETH AWYR AGORED

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn chwilio am gynigion gan sefydliadau neu unigolion i gynnal ymgyrch dros 12 mis i godi proffil yr elusen yn dilyn argyfwng COVID-19 drwy gynyddu'r nifer o ymwelwyr i'n gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol a chynyddu'r ymgysylltiad cymdeithasol a chyfranogaeth mewn gweithgareddau awyr agored drwy'r elusen.

Y Bartneriaeth Awyr Agored (Y BAA)

Ers ei sefydliad yn 2004, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gweithio i greu cydlyniant mewn cymunedau lleol trwy gyfrwng gweithgareddau awyr agored. Wedi'i lleoli yn y Ganolfan Fynydd Genedlaethol yng Nghapel Curig, Gogledd Cymru, mae'r BAA yn creu ac yn cefnogi ystod o fentrau yn y gymuned. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynrychioli continwwm sy'n annog ymgysylltiad ar bob lefel mewn cymunedau lleol. Gellir gweld natur y gweithgareddau hyn wrth glicio [yma](#).

Mae gan Y BAA strategaeth 5 mlynedd gyfredol sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn rhedeg hyd at ddiwedd 2020 a gellir ei gweld trwy glicio [yma](#). Ni ragwelir y bydd newidiadau mawr ym mhwrpas strategol Y BAA ond mae'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid a chydabod bod Y BAA ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect i ehangu'r gwaith yng ngwledydd eraill y DU.

Mae'r BAA yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant. Mae ei hincwm yn deillio yn bennaf o arian grant gan gynnwys Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, CGGC a'r NDA. Yn wreiddiol, cyfyngwyd y gwaith i Ogledd Orllewin Cymru ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae galw am y gwaith o fewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae Chwaraeon Cymru wedi darparu cyllid sbarduno i ganiatáu i'r BAA weithio gyda'r ardaloedd eraill hyn yng Nghymru i ddatblygu model busnes tebyg.

Yn fwy diweddar, mae gwaith Y BAA wedi cael ei chydabod gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fel enghraifft o ymarfer da a dyfarnwyd grant o £ 2.9m (net), £ 4.3m (gros) i'r BAA i ehangu'i model busnes i 3 safle ychwanegol wedi'i leoli yn Cumbria, Ayrshire a Gogledd Iwerddon. Dechreuodd y prosiect hwn ym mis Hydref 2019 a bydd yn rhedeg am saith mlynedd gyda'r nod o greu hyd at bum safle newydd y tu allan i Gymru yn y pen draw.

Daeth cysyniad cychwynnol ar gyfer sefydlu'r BAA yn dilyn effeithiau dinistriol epidemig Clwy'r Traed a'r Genau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r BAA bellach mewn sefyllfa debyg oherwydd pandemig Covid-19.

Brand

Mae brand Y BAA wedi'i gwmpasu o fewn ei chenhadaeth strategol o "Rhoi mwy o gyfle i fwy o bobl yng Nghymru gyflawni eu potensial trwy gyfrwng gweithgareddau awyr agored." a'i gweledigaeth: "Creu Cymru heini, iach a chynhwysol, lle mae gweithgareddau awyr agored yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan, mwynhau, cyflawni a dod o hyd i waith, gan ddod â chymunedau at ei gilydd a chreu defnydd cynaliadwy a gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd". Fel darparwr gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, mae'r BAA yn chwarae rhan cyfryngwr. Nid yw'n derbyn incwm uniongyrchol o weithgareddau ond yn hytrach yn ffynhonnell gredadwy o wybodaeth ddibynadwy; cefnogaeth ac arfer gorau. Gall hyn newid yn y dyfodol wrth i'r BAA geisio dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol a dibynnu llai ar incwm grant.

Dibenion

Pwrpas y briff hwn yw chwilio am unigolyn neu sefydliad sydd â phrofiad i arwain ar ymgyrch farchnata'r BAA i:

Yn y lle cyntaf:

- Adlewyrchu effaith newidiol COVID-19 wrth iddo effeithio ar waith Y BAA yn y sector awyr agored gan gynnwys, ond nid yn unig, cyfleoedd, cymorth, cyngor a chefnogaeth.

Edrych y tu hwnt i'r angen uniongyrchol hwn:

- Datblygu a gweithredu ymgyrch gyfathrebu integredig i ganiatáu hyrwyddo gwaith Y BAA i'r cymunedau y mae'n ei gwasanaethu.
- Cynyddu'r nifer o ymwelwyr i'r wefan
- Dyblu'r nifer o ddilynwyr ar Facebook
- Dyblu'r nifer o ddilynwyr ar Twitter
- Cynyddu'r ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol
- Darparu sylwadau'r wasg i gynulleidfaoedd lleol
- Adeiladu ar allu marchnata o fewn gweithlu'r BAA
- Hyrwyddo i gynulleidfa ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r awyr agored trwy waith Y BAA.
- Sicrhau enw da'r BAA fel sefydliad arweiniol sy'n hybu iechyd corfforol a meddyliol.

I gyflawni'r gwaith

- Gwahoddir i ymgeiswyr gyflwyno cynigion wedi'u costio yn amlinellu sut y byddant yn cyflawni dibenion allweddol y gwahoddiad hwn a'r effaith a ragwelir ar y dibenion
- Gwahoddir cynigion yn Saesneg neu yn y Gymraeg
- Y gyllideb yw £ 15,000 ar gyfer cyfnod y contract ac eithrio taliadau a fydd yn destun cytundeb ymlaen llaw ar wahân
- Mae'r contract am flwyddyn o'r dyddiad y cytunwyd ar y telerau ymgysylltu.
- Bydd y contract yn agored i gael ei ail-drafod am hyd at 2 flynedd arall yn ôl disgrisiwn y Bartneriaeth Awyr Agored.

- Bydd angen i'r contractwr sicrhau bod yr holl gynnwys yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru.
- Bydd angen i'r contractwr sicrhau cyfathrebu ymatebol gyda gweithlu'r BAA yn ogystal â'r aelodau, lle bo hynny'n berthnasol.

Sefyllfa bresennol

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored ar hyn o bryd yn gweithio drwy'r cyfryngau canlynol:

- Gwefan y gellir ei weld [yma](#). Ystadegau Gwefan (y ddau safle wedi'u cyfuno) - Golygfeydd Tudalen Unigryw * Ebrill 2019 - Mawrth 2020 - Ymweliadau Tudalen - 30049 (SAES) - 12898 (CYM) - Wedi'i oruchwylio gan ein Swyddog Marchnata a Gweinyddol rhan amser a'n Swyddog Gwirfoddoli, a reolir yn gyffredinol gan y Prif Weithredwr
- Twitter – Lanswyd yn Ionawr 2014. 1064 o ddilynwyr ar hyn o bryd a reolir gan ein Swyddog Marchnata a Gweinyddol rhan amser
- Instagram – Lanswyd yn 2016. 428 o ddilynwyr ar hyn o bryd a goruchwyliar a rheolir gan ein Swyddog Llwybrau i Waith
- Facebook (Y Bartneriaeth Awyr Agored / The Outdoor Partnership) – Lanswyd yn Ebrill 2011 gyda 2311 o ddilynwyr ar hyn o bryd
- Grŵp Facebook (Antur y Ferch Hon) – 760 o aelodau ar hyn o bryd – wedi'i oruchwylio a rheoli gan ein Swyddog Cynhwysol
- Grŵp Facebook (Gwirfoddolwyr Awyr Agored Gogledd Cymru – Lanswyd yn Ionawr 2019 – wedi'i oruchwylio a rheoli gan ein Swyddog Hyfforddi & Swyddog Gwirfoddoli

Rhanddeiliaid

Ein rhanddeiliaid:

- Clybiau awyr agored cymunedol (tua 100o glybiau gydag aelodaeth oddeutu 8000).
- Gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi gan Y BAA ac sy'n cefnogi'r clybiau cymunedol (tua 850)
- Hyfforddwy'r cymwys sy'n gwirfoddoli, mentora ac yn ymgysylltu'n broffesiynol â'r BAA
- Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon yn y sector awyr agored, rhai ohonynt gyda chytundebau lefel gwasanaeth / memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r BAA.
- Awdurdodau lleol ac asiantaethau anllywodraethol (e.e. Cynghorau Chwaraeon Cenedlaethol, Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol)

Ein cyllidwyr:

- Partneriaid prosiect fel cymdeithasau tai a'r Bwrdd Iechyd.
- Y diwydiant twristiaeth awyr agored ehangach sy'n gyflogwr mawr yn yr ardaloedd daearyddol yr ydym yn gweithio.
- Cymunedau sy'n byw ac yn gweithio o fewn ardaloedd gwaith Y BAA

Proses, Cwmpas a Chanllawiau

Ar y cyfan mae'r BAA yn asiantaeth sy'n darparu arweiniad a chefnogaeth. Gwneir y ddarpariaeth uniongyrchol yn bennaf trwy randdeiliaid trydydd parti.

Mae gwaith Y BAA yn rhoi pwysigrwydd mawr ar iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol; addysg i sicrhau dyfodol cynaliadwy ac adeiladu ar gydlyniant cymunedol i sicrhau newid mewn cenedlaethau i ddod.

Mae gan yr ardaloedd daearyddol y mae'r BAA yn gweithio ynddynt broffil twristiaeth uchel. Er bod gwaith Y BAA wedi'i dargedu at gymunedau lleol mae'n gweld ei gwaith fel un sy'n cefnogi twristiaeth mewn sawl ffordd gan gynnwys creu llwybrau at gyflogaeth; sefydlu agwedd gymunedol gadarnhaol tuag at dwristiaeth (antur); hyfforddi, mentora a hyrwyddo hyfforddwyr cymwys ac ati.

Mae effaith twristiaeth dorfol mewn ardaloedd gwledig gyda chynefinoedd bregus yn bryder mawr i'r BAA. Felly, mae'n rhaid rheoli gwaith Y BAA mewn modd sympathetig a chynaliadwy i ddiogelu'r amgylchedd a chyflwyno esiampl i ddefnyddwyr eraill.

At ddibenion gwaith Y BAA, mae gweithgareddau awyr agored yn cwmpasu'r gweithgaredd corfforol a wneir yn yr awyr agored sy'n creu agwedd feddyliol gadarnhaol, teimlad o les nad yw'n niweidiol i gymunedau na'r amgylchedd. Felly, mae'r BAA yn cefnogi llawer o weithgareddau corfforol (beicio, canŵio, cerdded, dringo creigiau, hwylio ac ati) ond nid yw'n cynnwys chwaraeon sydd â seilwaith ffurfiol (ee golff, pêl-droed, rygbi ac ati) ac nid yw'n cynnwys gweithgareddau modur (chwaraeon modur ac ati) neu chwaraeon gwaed (ee adara).

Mae'r BAA am ymgorffori amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. i'w gwaith - Cymru lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru fwy Cyfartal; Cymru â Chymunedau Cydlynus; Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru fwy Cyfrifol Byd-eang.

Mae'r BAA yn sefydliad cyfle cyfartal sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cefnogi arfer gorau cyfrifol. Mae'n bwysig fod cymunedau'n gweithio drostynt eu hunain, gan osod eu hamcanion eu hunain a gweithredu o fewn eu terfynau eu hunain. Mae'r BAA yn gweithredu fel sianel i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Gwerthusiad

Mae'r BAA yn awyddus i dderbyn cynigion sy'n dangos dull creadigol ac eang ei gwmpas wrth ymateb i'r brîff ac o'r herwydd mae ansawdd y cyflwyniad, yn enwedig eich methodoleg, wedi'i ogwyddo'n drwm.

Meini Prawf	
Pris	30%
Ansawdd	70%
Bydd yr ansawdd yn cael ei werthuso yn seiliedig ar y canlynol:	
Methodoleg	45%
Cynhwysedd ac Adnoddau	10%
Profiad/Astudiaethau achos x 2	15%

Meini Prawf 1 – Methodoleg – 40%

Rhowch ddisgrifiad o sut y byddech chi'n ymateb ac yn cyflawni yn erbyn pob un o'r "dibenion".

Meini prawf 2 – Cynhwysedd ac Adnoddau - 10%

Darparwch os gwelwch yn dda CV's o'r holl staff a fydd yn ymwneud â chyflawni'r gwaith hwn. Nodwch faint disgwylidig y gwaith gan bob unigolyn.

Darparwch ar dudalen ar wahân gan enwi'r ddogfen yn glir

Meini prawf 3 – Profiad/Astudiaethau achos x 2 - 15%

Darparwch ar dudalen ar wahân gan enwi'r ddogfen yn glir

Gyrrwch eich cynigion os gwelwch yn dda i Tracey Evans, Prif Weithredwr y Bartneriaeth Awyr Agored erbyn y **29ain o FAI 2020**